------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Hydref 2022

Amser: 12.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod (12.45 - 13.00)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.00)

### 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Ysgrifennydd Parhaol i Lywodraeth Cymru

(13.00 - 14.00) (Tudalennau 1 - 23)

Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Dr Andrew Goodall CBE, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 1 – Nodyn briffio

### 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.00 - 14.05) (Tudalennau 24 - 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

3.1 **SL(6)262 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022**

3.2 **SL(6)264 – Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022**

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(14.05 - 14.10)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

4.1 **SL(6)266 – Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.) (Diwygio) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 26 - 30)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 3 – Adroddiad drafft

LJC(6)-25-22 – Papur 4 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 30 Medi 2022

**Offerynnau Cadarnhaol Cyfansawdd Drafft**

4.2 **SL(6)259 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022**

(Tudalennau 31 - 32)

Gorchymyn [Saesneg yn unig]

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 5 – Adroddiad drafft

## 5 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.10 - 14.15)

**5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 33 - 34)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 - Papur 6 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 3 Hydref 2022

**5.2 Gohebiaeth a Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 35 - 38)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 - Papur 7 - Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Hydref 2022

LJC(6)-25-22 - Papur 8 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 5 Hydref 2022

**5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 39 - 40)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 - Papur 9 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Hydref 2022

## 6 Papurau i'w nodi

(14.15 - 14.20)

6.1 **Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion**

(Tudalennau 41 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 - Papur 10 - Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 3 Hydref 22

6.2 **Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu)**

(Tudalennau 43 - 44)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 - Papur 11 - Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Llywydd, 5 Hydref 2022

6.3 **Gohebiaeth gan y Prif Weinidog: Cytundebau rhwng y DU a'r UE**

(Tudalennau 45 - 55)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 - Papur 12 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 6 Hydref 2022

LJC(6)-25-22 - Papur 13 - Llythyr at y Prif Weinidog, 20 Gorffennaf 2022

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.20)

## 8 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Ysgrifennydd Parhaol i Lywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth

(14.20 - 14.35)

## 9 Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru): Adroddiad drafft

(I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 14 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

(14.55 – 15.05) (Tudalennau 56 – 59)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 15 – Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU: Adroddiad drafft

(15.05 – 15.10) (Tudalennau 60 – 81)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 16 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

LJC(6)-25-22 – Papur 17 – Llythyr gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 3 Hydref 2022

## 12 Blaenraglen Waith

(15.10 – 15.20) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-25-22 – Papur 18 – Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 10 Hydref 2022

## SL(6)262 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) a (Coronafeirws) (Dirymu) 2022

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn:

- Dirymu'r diwygiadau dros dro sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws a wnaed yn 2020[1] i ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau cartrefi gofal, sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, ac ar wasanaethau cymorth cartref i oedolion. Nod y diwygiadau hyn oedd cefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol brys i oedolion, lle'r oedd angen hyn o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, a symleiddio'r gwiriadau cyn cyflogi sy'n ofynnol ar gyfer gweithwyr preswyl a gofal cartref newydd, mewn sefyllfaoedd lle'r oedd yn anodd cael gafael ar y wybodaeth hon.

- Diwygio'r disgrifiad o fangreoedd 'Categori C'[2] i egluro eu bod yn cynnwys mangreoedd neu sefydliadau perthnasol yr oedd person wedi'i gofrestru yn gysylltiedig â hwy o dan unrhyw Ddeddf berthnasol (h.y. unrhyw Ddeddf, ac eithrio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a oedd yn darparu rheolaeth a goruchwyliaeth reoleiddiol o'r fath yn flaenorol mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety yng Nghymru).

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi
**Fe'u gosodwyd ar:** Heb ei nodi
**Yn dod i rym ar:** 01 Tachwedd 2022

---

[1] Drwy Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (SI 2020/570)
[2] Yn rheoliad 49 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (SI 2017/1264)

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 10 Hydref 2022

## SL(6)264 – Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae rheoliad 2 yn diwygio Deddf 2014 i bennu disgrifiad pellach o berson sydd ag angen blaenoriaethol am lety at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf honno. Mae'r Bennod honno yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau tai lleol i gynorthwyo pobl sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.

Mae rheoliad 3 yn gwneud newid cyfatebol i Reoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015.

Prif effaith y Rheoliadau yw y bydd pobl sy'n ddigartref ac ar y stryd, a'r bobl hynny y gellid disgwyl yn rhesymol i berson sy'n ddigartref ac ar y stryd breswylio gyda hwy, mewn angen blaenoriaethol am lety. Bydd y newidiadau a gyflwynir gan y Rheoliadau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i barhau i fabwysiadu polisïau cymorth digartrefedd sy'n dilyn yn agos yr ymateb digartrefedd brys i bandemig y coronafeirws.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Tai (Cymru) 2014
**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi
**Fe'u gosodwyd ar:** Heb ei nodi
**Yn dod i rym ar:** 24 Hydref 2022

# SL(6)266 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.) (Diwygio) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y"GDCG"), fel y'i diwygiwyd, yn caniatáu ar gyfer gwneud rhywfaint o waith datblygu,o fewn paramedrau penodol, heb fod angen cyflwyno cais cynllunio. Gelwir hyn yn"ddatblygu a ganiateir".

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc.)(Diwygio) (Cymru) 2022 ("Gorchymyn Diwygio GDCG 2022") yn diwygio'r GDCG. Mae effeithiau'r diwygiadau hyn yn cynnwys:

- caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol a Gweinidogion Cymru gyfarwyddo na fydd unrhyw ddatblygiad neu ddatblygiad penodol a ganiateir o dan erthygl 3 o'r GDCG yn gymwys mewn perthynas ag ardal benodedig;
- cyflwyno Atodlen 2A newydd. Mae Atodlen 2A yn nodi gweithdrefnau newydd y bydd yn rhaid eu dilyn wrth wneud, amrywio neu dynnu'n ôl unrhyw gyfarwyddyd a wneir o dan erthygl 4(1) o'r GDCG. Hefyd, mae Atodlen 2A yn cyflwyno dau fath o gyfarwyddyd y gellir eu gwneud: cyfarwyddyd a ddaw i rym ar unwaith a chyfarwyddyd na ddaw i rym ar unwaith.
- dileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru gadarnhau cyfarwyddyd Erthygl 4, gan ei gwneud yn ofynnol, yn hytrach, yn y rhan fwyaf o achosion, i'r awdurdod cynllunio lleol roi hysbysiad i Weinidogion Cymru ar ôl cael cadarnhad o gyfarwyddyd.
- diwygio Rhan 3 (newid defnydd) o Atodlen 2 i Orchymyn 1995 drwy fewnosod dau ddosbarth newydd, sef Dosbarth I a Dosbarth J.
    - Mae Dosbarth I yn cyflwyno nifer o hawliau datblygu a ganiateir newydd ar gyfer achosion diderfyn o newid defnydd, gan gynnwys defnydd cymysg, rhwng Dosbarth Defnydd C3 (Tai Annedd, a ddefnyddir fel unig breswylfeydd neu brif breswylfeydd); dosbarth defnydd C5 (Tai annedd, a ddefnyddir fel arall heblaw fel unig breswylfa neu brif breswylfa) a dosbarth defnydd C6 (Llety gosod tymor byr). Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.
    - Mae Dosbarth J yn cyflwyno nifer o hawliau datblygu a ganiateir newydd o ddefnydd fel swyddfa fetio i ddefnydd o fewn Dosbarth A1(siopau); neu Ddosbarth A2 (gwasanaethau ariannol a phroffesiynol); neu ddefnydd cymysg sy'n perthyn i Ddosbarth A1 neu Ddosbarth A2, yn ogystal ag un fflat.  Mae Dosbarth J hefyd yn caniatáu newid defnydd o ddefnydd cymysg fel swyddfa

fetio ac un fflat i ddefnydd o fewn Dosbarth A1 neu Ddosbarth A2, neu ddefnydd cymysg sy'n perthyn i Ddosbarth A1 neu Ddosbarth A2, yn ogystal ag un fflat, a defnydd fel swyddfa fetio. Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i gyfyngiadau.

Mae erthygl 3(2) yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Digolledu) (Cymru) (Rhif 2)

2014 (OS 2014/2693 (Cy.268)) ("Rheoliadau 2014") drwy ychwanegu dosbarth datblygu newydd at y rhestr o hawliau datblygu a ganiateir lle y caiff digollediad ar ôl tynnu'r hawl yn ôl ei gyfyngu mewn ffyrdd amrywiol a ddarperir yn Rheoliadau 2014. Gwneir mân ddiwygiadau hefyd i Reoliadau 2014.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Erthygl 2(4) yn mewnosod Atodlen 2A newydd yn y GDCG. Mae paragraff 1(12) o'r Atodlen 2A newydd yn nodi y caiff awdurdod cynllunio lleol, drwy wneud cyfarwyddyd dilynol, dynnu'n ôl unrhyw gyfarwyddyd a wnaed ganddo o dan Erthygl 4(1) y GDCG. Mae paragraff 1(14) o Atodlen 2A newydd yn mynd ymlaen i nodi, pan fo'r awdurdod cynllunio lleol yn gwneud cyfarwyddyd o dan baragraff 1(12), bydd paragraffau 1(1) i 1(11) o Atodlen 2A yn gymwys (yn ddarostyngedig i eithriad nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r pwynt adrodd hwn).

Mae paragraffau 1(1) i 1(11) o Atodlen 2A yn nodi amrywiol ofynion y mae'n rhaid eu dilyn pan wneir cyfarwyddyd o dan Erthygl 4(1) o'r GDCG. Nid yw'n glir pa un o'r gofynion hyn y mae'n rhaid parhau i'w dilyn pan wneir cyfarwyddyd o dan baragraff 1(12) o Atodlen 2A. Mae geiriad paragraff 1(14) yn nodi y bydd yr holl ofynion ym mharagraffau 1(1) i 1(11) yn gymwys, ond nid yw'n ymddangos bod hyn yn ymarferol. Er enghraifft, mae paragraff 1(4)(c) o Atodlen 2A newydd yn ei gwneud yn ofynnodl bod yn rhaid i hysbysiad a roddir o gyfarwyddyd ddatgan y rhoddir y cyfarwyddyd o dan Erthygl 4(1), ond ni fyddai hynny'n wir os yw'r hysbysiad yn ymwneud â chyfarwyddyd a wneir o dan baragraff 1(12). Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro sut y bydd cymhwyso paragraffau 1(1) i 1(11) o'r Atodlen 2A newydd i gyfarwyddiadau a wneir o dan baragraff 1(12) yn gweithio'n ymarferol.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Yn erthygl 2(2), mae'r geiriau agoriadol yn y testun Saesneg yn nodi "**For** article 4-" ond y cyfieithiad Cymraeg o'r testun cyfatebol yw "**Yn** erthygl 4". Defnyddir "For" fel arfer wrth ddisgrifio pa ddarpariaeth neu eiriau sydd i'w rhoi yn eu lle. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, mae'n disgrifio'r lleoliad y mewnosodir y gwelliannau ac "In" ddylai fod.

Yn ogystal, yn nhroednodyn (2) ar dudalen 3 o Orchymyn 2022, yn yr ail linell, mae gwahaniaeth rhwng y testun yn y ddwy iaith. Yn y testun Cymraeg, mae'r rhestr o adrannau yn cynnwys "61(1) a (3)" sy'n gyson â'r rhai a ddyfynnir yn y rhagymadrodd, tra bo'r testun Saesneg ond yn nodi "61(1)".

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Hydref 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gosod tymor byr** |
| **DYDDIAD** | **30 Medi 2022** |
| **GAN** | **Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Ar 4 Gorffennaf, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ac Arweinydd Plaid Cymru becyn o fesurau i fynd i'r afael ag ail gartrefi a llety gosod tymor byr yng Nghymru. Roedd y pecyn hwnnw'n cynnwys elfen o gynllunio defnydd tir, ac yn cyflwyno tri dosbarth defnydd newydd. Bydd y tri dosbarth defnydd newydd hyn yn rhoi'r gallu i'r awdurdodau cynllunio lleol, pan fo ganddynt dystiolaeth, i wneud newidiadau lleol i'r system gynllunio drwy gyfrwng Cyfarwydd Erthygl 4, gan ganiatáu iddynt ystyried a oes angen cael caniatâd cynllunio er mwyn newid o un dosbarth defnydd i un arall er mwyn rheoli nifer yr ail gartrefi ychwanegol a'r llety gosod tymor byr mewn ardal. Cynhaliwyd ymgynghoriad am y newidiadau hynny i'r ddeddfwriaeth gynllunio rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Chwefror 2022 ac erbyn hyn, cytunwyd arnynt, fel a ganlyn:

- Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (yr UCO) yn cael ei ddiwygio er mwyn creu dosbarthiadau defnydd newydd ar gyfer 'Tai annedd, a ddefnyddir fel unig breswylfa neu brif breswylfa' (Dosbarth C3), Tai annedd a ddefnyddir mewn modd ac eithrio fel unig breswylfa neu brif breswylfa' (Dosbarth C5) a 'Llety gosod tymor byr' (Dosbarth C6);

- Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y GPDO) yn cael ei ddiwygio er mwyn caniatáu newidiadau a ganiateir rhwng y dosbarthiadau defnydd newydd, C3, C5 a C6. Gellir datgymhwyso'r hawliau datblygu a ganiateir hyn mewn ardal benodol drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4 a wneir gan awdurdod cynllunio lleol ar sail tystiolaeth leol gadarn.

Dyma'r ddau Offeryn Statudol sy'n cael eu cyflwyno er mwyn gwneud y newidiadau hyn:

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022;

  https://www.legislation.gov.uk/wsi/2022/994/pdfs/wsi_20220994_mi.pdf

- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir etc) (Diwygio) (Cymru) Gorchymyn 2022.

  https://www.legislation.gov.uk/wsi/2022/997/pdfs/wsi_20220997_mi.pdf

Bydd yr Offerynnau Statudol yn dod i rym ar 20 Hydref 2022.

Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, mae newidiadau ategol yn cael eu gwneud hefyd i adran 4.2 o *Polisi Cynllunio Cymru* (PCC). Mae'r newidiadau polisi hynny'n ei gwneud yn glir, pan fo hynny'n berthnasol, bod yn rhaid ystyried nifer yr ail gartrefi a 'r unedau llety gosod tymor byr mewn ardal leol wrth ystyried y gofynion tai a'r polisïau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau).

Er mwyn cynorthwyo'r awdurdodau cynllunio lleol i wneud Cyfarwyddydau Erthygl 4, ac er mwyn symleiddio a hwyluso'r broses, mae'r Gorchymyn Cyffredinol ar Ddatblygu a Ganiateir (GPDO) a deddfwriaeth gysylltiedig yn cael eu diwygio hefyd. Roedd y newidiadau hynny'n rhan o'r ymgynghoriad ar 'Datblygu a Ganiateir' a gynhaliwyd rhwng 16 Tachwedd 2021 a 15 Chwefror 2022. Rwyf wedi ysgrifennu heddiw at yr awdurdodau lleol i roi rhagor o wybodaeth iddynt am y camau y dylid ei cymryd pan fo awdurdod cynllunio lleol yn dymuno mynd ar drywydd y posibilrwydd o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4.

# SL(6)259 - Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) (Rhif 3) 2022

## Cefndir a diben

Sefydlwyd Cynllun Masnachu Allyriadau ("ETS") y DU gan Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 ("y prif Orchymyn") fel cynllun masnachu allyriadau nwyon tŷ gwydr ar gyfer y DU gyfan. Mae Cynllun Masnachu Allyriadau y DU yn cael ei gynnal am ddeng mlynedd, gan ddechrau yn 2021. Mae'n ofynnol i weithredwyr mathau penodol o osodiadau diwydiannol a gweithredwyr mathau penodol o awyrennau fonitro, adrodd ar ac ildio "lwfansau" sy'n cyfateb i'w hallyriadau nwyon tŷ gwydr ym mhob un o flynyddoedd y cynllun.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r prif Orchymyn i gynnwys hediadau o Brydain Fawr i'r Swistir o fewn diffiniad gweithgareddau hedfanaeth, gan ddod â nhw o fewn cwmpas Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU, i'w gwneud yn ofynnol i ail-gyfrifo'r hawl i ddyraniad o lwfansau am ddim er mwyn ystyried y categori newydd, sef gweithgareddau hedfanaeth yn y gorffennol, a chaniatáu i bersonau nad ydynt wedi gwneud cais am ddyraniadau o lwfansau am ddim yn y gorffennol wneud cais am ddyraniad o lwfansau am ddim.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Gosodwyd drafft o'r Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Rhaid i'r drafft gael ei gymeradwyo gan bob un o'r deddfwrfeydd hynny cyn y gellir ei wneud gan Ei Fawrhydi.

## Materion technegol: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.**

Gosodwyd y Gorchymyn gerbron Senedd Cymru, Senedd y Deyrnas Unedig, a Senedd yr Alban. Mae'r Gorchymyn wedi'i wneud yn Saesneg yn unig. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn (ym mharagraff 2.4):

> *Gan y bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor yn destun craffu gan Senedd y DU, nid ystyrir bod gwneud neu osod yr offeryn yn ddwyieithog yn rhesymol ymarferol.*

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gynllun a ddatblygwyd ar gyfer pedair gwlad y DU. Nid yw Gogledd Iwerddon, fodd bynnag, yn gallu pasio deddfwriaeth gadarnhaol ar hyn o bryd. Fel y cyfryw, dim ond ar hyn o bryd y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â Phrydain Fawr. Mae Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

> *2.5 Er bod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU yn gynllun ar gyfer y pedair gwlad, ni all Gogledd Iwerddon basio deddfwriaeth gadarnhaol am fod y Senedd wedi methu enwebu Siaradwr ac nid yw Gweithrediaeth wedi cael ei ffurfio. O ganlyniad, mae swyddogion wedi sicrhau cymeradwyaeth weinidogol gan Ogledd Iwerddon i fwrw ymlaen, yn y lle cyntaf, â deddfwriaeth sy'n ymwneud â Phrydain Fawr yn unig.*
>
> *2.6 Byddai'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r hediadau o Brydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) i'r Swistir, mewn grym o 1 Ionawr 2023. Byddai'r ddeddfwriaeth ar gyfer hediadau o Ogledd Iwerddon i'r Swistir yn cael ei gweithredu cyn gynted ag y gall Senedd Gogledd Iwerddon fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Hydref 2022**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-22734-22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

huw.Irranca-Davies@senedd.wales

3 Hydref 2022

Annwyl Huw

**Rheoliadau Sefydliad Cyffredin y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022**

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod yn rhoi caniatâd i Ysgrifennydd Gwladol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Sefydliad Cyffredin y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) 2022 ar 8 Tachwedd 2022.

Mae'r Rheoliadau'n gwneud amrywiol ddiwygiadau technegol i ddeddfwriaeth ddomestig yr UE a ddargedwir ac sy'n deillio o'r UE sy'n ymwneud â safonau marchnata ar gyfer cynhyrchion amaethyddol.

Crynhoir y diwygiadau perthnasol isod:

*Rhan 2 Pennod 1 (Rheoliadau 2-4)*
Mae rheoliadau 2 i 4 yn gwneud diwygiadau gweithredu i fynd i'r afael â diffygion mewn deddfwriaeth uniongyrchol a ddargedwir yn ymwneud â safonau marchnata:

- Mae Rheoliad 2 yn diwygio Atodiad 14 o Reoliad y Cyngor (EC) 1234/2007 yn ymwneud â safonau marchnata ar gyfer deor wyau a chywion a chig dofednod drwy fewnosod diffiniadau o "awdurdod perthnasol" a "thrydedd gwlad" a disodli cyfeiriadau at y Gymuned Ewropeaidd a'r Aelod-wladwriaethau.
- Mae Rheoliad 3 yn diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) 543/2008 ar safonau marchnata dofednod i amnewid cyfeiriad at gyfarwyddeb gyda deddfwriaeth ddomestig gyfatebol, a dileu cyfeiriad at ddarpariaeth sydd wedi'i hepgor; mae hefyd yn diweddaru cyfeiriad at safon Norm Ewropeaidd sydd wedi'i ddisodli.
- Mae Rheoliad 4 yn diweddaru'r un cyfeiriad Norm Ewropeaidd yn Atodiad 7 o'r rheoliad CMO.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Rhan 3, Pennod 1 (Rheoliad 14)*
Mae Rheoliad 14 yn gwneud gwelliant gweithredu i Reoliadau Ardystio Hopys 1979. Mae Rheoliad 3(1)(f) o Reoliadau Ardystio Hopys 1979 bellach yn ddi-angen oherwydd darpariaethau a wnaed gan Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 sy'n gwarantu y gall hopys a chynhyrchion hopys barhau i gael eu symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion i'w gwerthu yng Ngogledd Iwerddon. O'r herwydd, mae'r offeryn hwn yn gweithredu i hepgor Rheoliad 3(1)(f) o Reoliadau 1979 i sicrhau eglurder.

Polisi Llywodraeth Cymru, fel arfer, yw deddfu dros Gymru mewn materion sy'n ymwneud â chymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau mae buddion wrth gydweithio gyda Llywodraeth y DU, lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Y tro hwn, yr wyf yn rhoi fy chydsyniad i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud cywiriadau mewn perthynas â Chymru, ac ar ran hynny, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac i sicrhau cysondeb a chydlyniad ar y llyfr statud. Mae'r gwelliannau wedi cael eu hystyried yn llawn ac nid oes unrhyw ymwahaniad mewn polisi ar hyn o bryd.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

6 Hydref 2022

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yn: [https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-plau-planhigion-awdurdodiadau-diwygio-2022](https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-rheoliadau-plau-planhigion-awdurdodiadau-diwygio-2022)

Mae'r Rheoliadau'n gorgyffwrdd â pholisi datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru. Gallai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau drwy arfer ein pwerau ein hunain. Mae'r Rheoliadau'n berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Mae trefn awdurdodi gwyddonol cyfredol Prydain yn cyhoeddi awdurdodiadau sy'n caniatáu plâu neu blanhigion, cynhyrchion planhigion a deunydd arall a fyddai fel arfer yn cael eu gwahardd, i'w mewnforio i mewn neu eu symud o fewn Prydain Fawr ar gyfer profi swyddogol, dibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, detholiadau amrywiaethol, neu fridio. Dim ond gorsafoedd cwarantin dynodedig neu gyfleusterau cyfyngu, sydd wedi'u cymeradwyo fel rhai addas i gynnwys y deunydd penodedig, sy'n gymwys i gael awdurdodiad i gyflwyno a storio'r deunyddiau hyn.

Bydd y gwelliannau yn lleihau'r baich gweinyddol ar ddeiliaid awdurdodi a gwasanaethau iechyd planhigion GM. Gwneir gwelliannau i'r Llythyr Awdurdodi (LoA) i ganiatáu symudiadau lluosog o ddeunydd a ganiateir. Bydd gwybodaeth, nad yw'n cael ei ystyried ei fod yn helpu gwasanaethau iechyd planhigion GM i asesu'r risg bioddiogelwch o'r deunydd a bennir yn cael ei ddileu. Bydd y gwelliant hwn yn dileu'r gofyniad i darddiad trydydd gwledydd gymeradwyo mewnforio'r deunydd penodedig i Brydain. Nid yw Sefydliadau Diogelu Planhigion Cenedlaethol Trydydd Gwledydd (NPPOs) o'r wlad darddiad yn rhan o'r broses awdurdodi ac nid oes ganddynt reolaeth dros y deunydd y maent yn ei gymeradwyo. Bydd y gwelliant hwn hefyd yn ychwanegu rhwymedigaeth ar awdurdod cymwys y

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

diriogaeth y mae deunydd penodedig i'w symud ohono, i gymeradwyo symud y deunydd i diriogaeth arall o fewn Prydain. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod cyrchfannau y symudiadau hyn yn bodloni gofynion gorsaf gwarantin ddynodedig neu gyfleuster cyfyngu.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, caiff ei ystyried yn briodol i sylwedd y gwelliannau fod yn gymwys i Gymru. Y rheswm am hyn yw nad oes ymwahaniad polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson gyda'r rheoliadau'n hygyrch mewn un offeryn. Hefyd, mae angen cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon ar frys, er mwyn diogelu bioddiogelwch yng Nghymru. Rwy'n ystyried nad deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weld effaith y newidiadau angenrheidiol, yn enwedig o ystyried natur frys y Rheoliadau, ac ni fyddai'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Nid oes gan y Rheoliadau hyn oblygiadau ar gyfer y Rhaglen Lywodraethu. Mae atal mynediad i blâu a chlefydau planhigion yn cefnogi'r mwyafrif o nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a bydd golygu cyfraniad cadarnhaol, uniongyrchol i'r "Gymru iachach" a nodau 'Cymru gadarn', ynghyd ag effeithiau cysylltiedig ar nodau "Cymru lewyrchus" a "Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang".

Gwnaed y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddwyd gan Erthyglau 8(5) a 48(5) o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion. Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 3 Hydref 2022, i gychwyn ar 1 Tachwedd 2022.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion



**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022** |
| **DYDDIAD** | **05 Hydref 2022** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths AS, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd** |

Bydd Aelodau'r Senedd am wybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd Victoria Prentis AS, Gweinidog Gwladol y Deyrnas Unedig dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd am gytundeb i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Plâu Planhigion (Awdurdodiadau) (Diwygio) 2022 a fydd yn berthnasol i Brydain Fawr.

Bydd yr OS uchod yn cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer pwerau a roddwyd gan Erthygl 41(3) o Reoliad (EU) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau diogelu rhag plâu planhigion, rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill.

Mae'r OS yn diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/829, sy'n sefydlu gofynion wrth weinyddu'r rhanddirymiadau o dan Erthyglau 8 a 48 o'r Rheoliad Iechyd Planhigion. Mae'r diwygiadau hyn yn addasu'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu a'r wybodaeth sydd yn y Llythyr Awdurdod o dan Erthygl 3(3), Erthygl 6(4) ac Atodiad I, sy'n ofynnol wrth wneud cais am awdurdodiad o dan y rhanddirymiadau hyn ac at ddibenion monitro'r deunyddiau o dan sylw.

Mae'r diwygiadau'n gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth. Maent yn lleihau'r baich gweinyddol ar ddeiliaid awdurdodiad a Gwasanaethau Iechyd Planhigion Prydain Fawr heb beryglu bioddiogelwch.

Gosodwyd y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 3 Hydref 2022 i ddod i rym ar 1 Tachwedd 2022.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Gwnaeth diwygiadau blaenorol i ddeddfwriaeth Iechyd Planhigion gywiriadau yr oedd eu hangen i'r gyfundrefn rheoleiddio iechyd planhigion. Eu heffaith oedd ehangu cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru drwy roi swyddogaethau heb lyffethair iddynt (yn rhinwedd eu swydd fel 'Awdurdod Cymwys' i Gymru). Bydd y Gweinidog am nodi nad yw'r Rheoliadau yn trosglwyddo unrhyw swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**

Mae cyfundrefn bresennol Prydain Fawr ar gyfer awdurdodiadau gwyddonol yn rhoi awdurdodiadau sy'n caniatáu i blâu neu blanhigion, cynhyrchion planhigion a deunyddiau eraill a fyddai fel arfer yn cael eu gwahardd, gael eu mewnforio i Brydain Fawr neu eu symud ynddi ar gyfer profion swyddogol, at ddibenion gwyddonol neu addysgol, treialon, dewis amrywogaethau neu fridio. Dim ond gorsafoedd cwarantin dynodedig neu gyfleusterau cadw diogel, sydd wedi cael eu cymeradwyo fel safle addas ar gyfer cadw'r deunydd o dan sylw, sy'n gymwys i dderbyn awdurdodiad i gyflwyno a storio'r deunyddiau hyn. Yn dilyn cais llwyddiannus am awdurdodiad, mae'r awdurdod cymwys (Gwasanaethau Iechyd Planhigion Prydain Fawr) yn anfon awdurdodiad a Llythyr Awdurdod at yr ymgeisydd sy'n caniatáu mewnforio, symud a storio'r deunydd o dan sylw. Mae dros 250 trwydded ar waith ledled Prydain Fawr gan dros 60 sefydliad gwyddoniaeth ac ymchwil. Ar hyn o bryd dylai Llythyrau Awdurdod fod naill ai ar gyfer mewnforyn unigol neu fwy nag un mewnforyn o'r un math o ddeunydd, ac o'r un tarddiad o dan yr un amodau. O ystyried maint a chymhlethdod llawer o'n hawdurdodiadau nid yw hyn yn ymarferol.

Er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar ddeiliaid awdurdodiad a Gwasanaethau Iechyd Planhigion Prydain Fawr, mae'r offeryn hwn yn diwygio Llythyrau Awdurdod ac yn caniatáu symud deunyddiau a ganiateir o bob tarddiad a enwir. Mae'r Llythyr Awdurdod hefyd wedi cael ei ddiwygio i ddileu unrhyw wybodaeth amherthnasol a diangen, wrth gynnal bioddiogelwch ar yr un pryd.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau, ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/uksi/2022/1020/contents/made

**Pam mae caniatâd wedi cael ei roi**

Mae caniatâd wedi cael ei roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, er effeithlonrwydd a hwylustod ac i ddiogelu bioddiogelwch drwy ddiweddaru'r gofynion mewnforio i leihau'r risg o gyflwyno plâu drwy ddamwain. Mae’r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi.

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

6 Hydref 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 erbyn 19 Hydref 2022.

Rwyf wedi derbyn llythyr gan Victoria Prentis AS, y Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau hyn. Bydd y Rheoliadau'n cael ei wneud yn yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy arwain y pwerau a roddir gan Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.Bydd rhai o'r darpariaethau yn y Rheoliadau'n gorgyffwrdd â pholisi datganoledig Gallai'r darpariaethau fod wedi cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer ein pwerau a roddwyd gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Bydd y Rheoliadau'n berthnasol i Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac mae cais tebyg am gysyniad wedi cael ei anfon at weinidogion yr Alban.

Mae'r Offeryn Statudol (OS) yn diwygio Rheoliad a ddargedwir (EU) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus ("Rheoliadau POP a ddargedwir"). Mae'n gwneud mân ddiwygiadau technegol sy'n disodli dwy swyddogaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn Rheoliadau POP a ddargedwir â swyddogaethau ar gyfer yr awdurdod priodol, yn unol â chywiriadau a wnaed eisoes mewn mannau eraill yn yr Atodiad. Mae'r diwygiadau hefyd yn rhoi yn ôl randdirymiad a gafodd ei hepgor drwy ddamwain. Mae'r OS hefyd yn cywiro'r Rheoliad yn Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 lle nad oes gan y darpariaethau rym cyfreithiol o dan Reoliadau POP a ddargedwir mewn perthynas ag asid perfflworöoctan sylffonig (PFOS).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, a bydd yn cael ei osod gerbron Senedd y DU ar 19 Hydref.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r diwygiadau, yn eu hanfod, fod yn berthnasol i Gymru, gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson, gyda'r rheoliadau ar gael o fewn offeryn sengl. Rwyf o'r farn nad deddfu ar wahân ar gyfer Cymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o weithredu'r newidiadau sydd eu hangen, ac na fyddai'n defnyddio adnoddau Llywodraeth Cymru mewn modd pwyllog, o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

3 Hydref 2022

**Y Bil Ysgolion**

Annwyl Jeremy,

Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Trafodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 21 Medi.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi ychydig mwy o wybodaeth i ni am y Bil Ysgolion i lywio ein trafodaethau:

1. Yn eich llythyr at y Llywydd dyddiedig 19 Gorffennaf 2022, gwnaethoch ddweud eich bod wrthi'n cynnal dadansoddiad o gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil wrth iddo fynd yn ei flaen. A allech chi roi unrhyw ddiweddariadau i ni ynglŷn â'ch canfyddiadau?

2. Mae cymal 52(2) o'r Bil yn cynnwys pŵer i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau sy'n cynnwys diwygiadau sy'n ganlyniadol ar ddarpariaethau'r Bil. Gellid defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau canlyniadol sy'n gymwys yng Nghymru ac nid oes dim yn y Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth y DU ymgynghori â Llywodraeth Cymru na chael cydsyniad Llywodraeth Cymru neu Senedd Cymru cyn arfer y pŵer hwn. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cymal 52(2), ac os felly, pa gamau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i liniaru eich pryderon?

Rydym hefyd yn deall y bydd cyfarfod nesaf Cyngor Gweinidogion Addysg y DU yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru. A allwch amlinellu pryd yr ydych yn bwriadu cynnal y cyfarfod hwnnw, ac a ydych yn bwriadu codi'r Bil Ysgolion - gan gynnwys unrhyw bryderon sydd gennych am effaith y Bil ar bwerau datganoledig Cymru - yn ystod y cyfarfod hwnnw?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ein dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion ar hyn o bryd yw 1 Rhagfyr. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi cael eich ymateb erbyn 10 Tachwedd fan bellaf fel y gallwn ni drafod eich ymateb yn ein cyfarfod ar 17 Tachwedd a drafftio ein hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

05 Hydref 2022

Annwyl Elin,

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, y Gwir Anrh. Jacob Rees-Mogg AS, Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu) (y Bil) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 22 Medi.

Mewn llythyr ataf yr un diwrnod, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod Llywodraeth y DU yn ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer y Bil a gofynnodd a fyddai Gweinidogion Cymru yn cytuno mewn egwyddor i gefnogi Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae gan y Bil fel y'i cyflwynwyd gynnwys polisi na rannwyd â'r Llywodraethau Datganoledig cyn ei gyflwyno ac, oherwydd y goblygiadau sylweddol i Lywodraeth Cymru, nid yw eto wedi bod yn bosibl ystyried yn briodol ganlyniadau'r hyn sy'n cael ei gynnig o safbwynt datganoli.

Mae'r Bil yn cyflwyno dyddiad terfyn heriol iawn o ran machlud, sef 31 Rhagfyr 2023, gan olygu y bydd angen i lywodraethau'r DU adolygu nifer sylweddol o offerynnau cyfreithiol yn y 15 mis nesaf, gwneud penderfyniadau polisi fel y bo'n briodol ac yna ddeddfu i sicrhau nad yw cyfraith yr UE a ddargedwir yn machlud. Fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio, gallai hefyd olygu y bydd Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig heb ein cydsyniad. Byddai hynny'n fater cyfansoddiadol arwyddocaol iawn.

Unwaith y bydd gennym ddarlun clir o ganlyniadau'r ddeddfwriaeth arfaethedig o safbwynt datganoli, rhagwelaf y bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod gerbron y Senedd. Serch hynny, bydd y tu allan i'r cyfnod amser arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Prif Weinidog, Gweinidog yr Economi, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, y Gweinidog Newid Hinsawdd, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Eitem 6.3

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

6 Hydref 2022

Annwyl Huw,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â chytundebau rhwng y DU a'r UE. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau yn eich llythyr i'w gweld yn yr Atodiad.

Yours sincerely,

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Atodiad

Cyfrifoldebau

1. *A wnewch chi egluro sut y mae ymgysylltu â llywodraethiant cytundebau rhwng y DU a'r UE yn cael ei gydlynu o fewn Llywodraeth Cymru?*

Cyfarwyddiaeth y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y Cyfansoddiad a Chyfiawnder (ETCJ) sy'n bennaf gyfrifol am y diben hwn.

2. *A wnewch chi egluro pa Weinidog sy'n arwain ar gydgysylltu'r gwaith hwn ar draws adrannau Llywodraeth Cymru?*

Gweinidog yr Economi sydd â chyfrifoldeb arweiniol yn Llywodraeth Cymru am gydgysylltu materion sy'n ymwneud â chytundebau rhwng y DU a'r UE. Fel Prif Weinidog rwy'n parhau i fod yn gyfrifol am yr holl faterion sy'n ymwneud â Chysylltiadau Rhyngwladol.

Llywodraethiant y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: Y Cyngor Partneriaeth

3. *Yn sgil y pryderon a godwyd gennych chi a Gweinidog yr Economi y llynedd ynghylch y statws sylwedydd a roddwyd i chi yng nghyfarfodydd y Cyngor, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y statws a roddir i chi ar gyfer yr ail gyfarfod, pan gaiff ei gynnal?*

Bydd yn ddibynnol ar drafodaethau i'w cynnal gyda Gweinidogion y DU ar ôl penodi Prif Weinidog newydd y DU.

4. *A wnewch chi amlinellu'r rôl sydd gennych o ran gwneud penderfyniadau yn y Cyngor Partneriaeth, gan gynnwys rhwng cyfarfodydd?*

Nid oes gan Lywodraeth Cymru rôl ffurfiol yn y Cyngor Partneriaeth gan mai Llywodraeth y DU a'r UE sy'n ffurfio ei aelodaeth.

Grwpiau Cynghori Domestig

5. *A oes gennych chi unrhyw wybodaeth neu bryderon i'w rhannu am gynrychiolaeth Cymru ar Grŵp Cynghori Domestig Llywodraeth y DU?*

Mae'r rhestr o'r cyrff sy'n aelodau presennol ar gael yn Y Grŵp Cynghori Domestig ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE - GOV.UK (www.gov.uk). Mae'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a nifer o gyrff sydd â buddiannau yn ymwneud â Chymru fel rhan o'u cylch gwaith ehangach. Mae'r broses ar gyfer datganiadau o ddiddordeb wedi cael ei hailagor ac wedi chau ar 16 Medi. Bydd yr aelodaeth yn cael ei hadolygu yn gyson.

6. *A fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu mynd i gyfarfodydd Grŵp Cynghori Domestig Llywodraeth y DU ac os nad, sut fydd hi'n ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid o Gymru a benodir i'r Grŵp Cynghori?*

Mae'r Grŵp Cynghori Domestig wedi'i lunio'n annibynnol ar y llywodraeth yn fwriadol. Mae wedi cytuno ar ei Reolau Gweithdrefnau: Rheolau Gweithdrefnau Grŵp Cynghori Domestig y DU ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.pdf (publishing.service.gov.uk). Mae'r rhain yn gwneud darpariaeth i swyddogion o Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig: "*be invited to attend DAG meetings with a view to participating in discussions or to make presentations on specific subjects*".

Mae'r Rheolau Gweithdrefnau hefyd yn ymrwymo Llywodraeth y DU i roi gwybodaeth berthnasol i'r Grŵp Cynghori Domestig ac i ymateb i'w safbwyntiau ar yr wybodaeth honno.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn cadw mewn cysylltiad agos â CGGC ac unrhyw randdeiliaid eraill sy'n ymdrin â buddiannau Cymru.

Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd am nodi bod y Rheolau Gweithdrefnau yn datgan: "*The location of the UK DAG plenary meetings shall be rotated among the four UK home nations*".

7. *A fydd y llywodraethau datganoledig yn gallu awgrymu eitemau i'w trafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynghori Domestig?*

Mater i Gadeirydd y Grŵp Cynghori Domestig yw gosod agendâu yn y bôn, ar ôl ymgynghori â'r Is-gadeiryddion, gyda chyfranogiad gan ei aelodau. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn gallu awgrymu eitemau agenda yn benodol. Gall eitemau agenda Lywodraeth Cymru gael eu hawgrymu drwy'r naill neu'r llall o'r llwybrau hyn.

Cyfarfodydd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

8. *A wnewch egluro a yw Llywodraeth Cymru yn cael gwahoddiadau i bob cyfarfod, neu ambell un yn unig?*

Byddem yn disgwyl cael gwahoddiadau gan Lywodraeth y DU i gyfarfodydd wedi'u trefnu o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n ymwneud â meysydd o ddiddordeb datganoledig.

9. *A wnewch chi egluro'r meini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a yw swyddogion yn mynd i gyfarfodydd ai peidio?*

10. *Pa ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal o fewn Llywodraeth Cymru o ran a ddylai unrhyw un fod yn bresennol ai peidio? Sut mae unrhyw wybodaeth a gesglir o'r cyfarfodydd yn cael ei chasglu a'i rhannu o fewn Llywodraeth Cymru a – lle bo'n briodol – gyda rhanddeiliaid posibl?*

11. *A wnewch chi egluro prosesau Llywodraeth Cymru o ddod i benderfyniad o ran bod yn bresennol mewn cyfarfodydd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?*

Mae pwnc cwestiynau 9 i 11 yn gorgyffwrdd ac rwyf wedi'u grwpio gyda'i gilydd er mwyn ymateb iddynt.

Ein prif bryder yw cymryd rhan weithredol ym musnes cyfarfodydd o'r fath, gan gynnwys paratoi safbwyntiau cyn cyfarfodydd, a'r camau dilynol wedi hynny, yn ogystal â'r cyfarfodydd eu hunain. Fel arfer, mewn achosion lle mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb sylweddol mewn mater, bydd ymgysylltu gweithredol wedi bod rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae sicrhau bod y broses hon yn gweithio'n dda yn flaenoriaeth i ni, o ran gweithrediad perthynas y DU a'r UE yn ei chyfanrwydd. Ym mhob achos, bydd y prif swyddogion polisi yn Llywodraeth Cymru yn gallu penderfynu a ddylid mynychu cyfarfodydd. Mae Cyfarwyddiaeth ETCJ yn chwarae rôl gydgysylltiol ar draws Llywodraeth Cymru ar yr holl faterion hyn a bydd yn cefnogi timau polisi unigol i rannu arferion gorau ar faterion o'r fath.

Cydymffurfio

12. *Yng sgil y pryderon blaenorol a godwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau Llywodraeth y DU yn cydymffurfio â'r Cytundeb, a wnewch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati i fonitro cydymffurfiaeth â'r Cytundeb?*

Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'i rhwymedigaethau ei hun sy'n deillio o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Llywodraeth y DU ei hun sy'n gyfrifol am ei chydymffurfiaeth hithau mewn perthynas â'i rhwymedigaethau penodol o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

Effaith y Cytundeb Ymadael ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

13. *A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyflwyno Bil Protocol Gogledd Iwerddon yn gyfystyr â thorri'r Cytundeb Ymadael?*

Er mai mater i'r Llysoedd fydd penderfynu a yw'r gyfraith wedi'i thorri, cred Llywodraeth Cymru ei bod hi'n bosibl fod y Bil yn torri'r Cytundeb.

14. *Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o'r modd y gallai achos posibl o dorri'r Cytundeb Ymadael effeithio ar weithrediad y Cytundeb yng Nghymru?*

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi asesu'n benodol sut y gallai achos posibl o dorri'r Cytundeb Ymadael effeithio ar weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yng Nghymru, o ystyried y byddai hynny'n dibynnu i raddau helaeth ar y camau y gallai'r UE ddewis eu cymryd o ran y Cytundeb Masnach a Chydweithredu mewn ymateb i achos o dorri'r Cytundeb Ymadael.

Er hynny, rydym wedi gwneud sylwadau cryf mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ynglŷn â'r sefyllfa anfoddhaol y cawn ein hunain ynddi, yn arbennig mewn perthynas â'r cysylltiad â rhaglenni'r UE fel Horizon. Fel y mae pethau'n sefyll, hyd nes y datrysir y mater gyda'r Protocol, ni fydd y materion ehangach hyn yn cael eu datrys ac, ar y sail honno, rydym wedi egluro ein safbwynt i Weinidogion Llywodraeth y DU.

15. *Sut – os o gwbl – mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar achosion posibl o dorri'r Cytundeb Ymadael?*

Nid ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno Bil Protocol Gogledd Iwerddon.

16. *A oes gan lywodraethau Cymru a'r DU brosesau cytûn ar waith ar gyfer achosion posibl o dorri amodau, neu ar gyfer hysbysu am unrhyw gamau ymatebol a gymerwyd gan yr UE?*

Mae Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein swyddfa ym Mrwsel, yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig i fonitro unrhyw gamau ymatebol a gymerir gan yr UE.

*17. A oes mecanweithiau rhynglywodraethol presennol yn cael eu defnyddio at y diben hwn, neu a yw'n fwriad eu defnyddio at y diben hwn ac, os felly, pa rai?*

Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Cysylltiadau rhwng y DU a'r UE yw'r fforwm mwyaf priodol ar gyfer trafod materion sy'n ymwneud â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael.

Cysylltiadau Rhynglywodraethol

*18. A wnewch chi amlinellu pa mor aml y byddai'n well gennych chi weld amseru cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ac a yw hyn wedi'i gyfleu i Lywodraeth y DU?*

Cytunwyd dros dro y dylid cynnal cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol yn chwarterol, gan gynnwys cyn cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth a/neu'r Cyd-bwyllgor ar gyfer y Cytundeb Ymadael, fel y bo'n briodol. Nid yw cylch gwaith y Grŵp Rhyngweinidogol wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol eto, gan nad yw Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon mewn sefyllfa i wneud hynny. Mae'r mater o sicrhau partneriaeth gadarn a chyfranogol rhwng Llywodraeth y DU a'r tair llywodraeth ddatganoledig yn y berthynas â'r UE yn hanfodol. Rwy'n gobeithio codi hyn gyda'r Prif Weinidog newydd os bydd cyfle i wneud hynny.

*19. Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhyngoch chi a Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r mater o alw cyfarfodydd gyda digon o rybudd?*

Mae sylwadau cryf wedi'u gwneud ar y mater hwn. Byddwn i'n disgwyl trafodaethau ehangach gyda Gweinidogion newydd y DU, ar ôl iddynt gael eu penodi, i fynd i'r afael â hyn.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

20 Gorffennaf 2022

Annwyl Mark

Cytundebau rhwng y DU a'r UE

Diolch eto am yr **ohebiaeth** a gyfnewidiwyd rhyngom yn gynharach eleni mewn perthynas â'r gofynion sy'n codi o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ("y Cytundeb").

Gan fod y Cytundeb mewn grym ers blwyddyn, bellach, hoffem rannu ein sylwadau ar ei weithrediad yn ogystal â'i lywodraethiant. Byddai'n dda gennym petai ymatebion i'r cwestiynau a amlinellir isod yn dod i law erbyn 5 Medi 2022.

**Cyfrifoldebau**

Nodwn bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynrychioli mewn ambell gyfarfod ynghylch y Cytundeb gan Weinidog yr Economi, Vaughan Gething. Er bod cyfrifoldebau portffolio'r Gweinidog yn cynnwys masnach a chydgysylltu materion sy'n ymwneud â'r Cytundeb, mae eich cyfrifoldebau fel Prif Weinidog yn cynnwys Cymru yn Ewrop, cysylltiadau rhyngwladol a chysylltiadau rhynglywodraethol. Yn yr un modd, mae cyfrifoldebau'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys hawliau dinasyddion yr UE o dan y Cytundeb Ymadael.

At hynny, nodwn y penodwyd y cyn-ASE, Derek Vaughan, fel **cynrychiolydd newydd Llywodraeth Cymru ar Ewrop** i gefnogi ei gwaith yn Ewrop, gan gynnwys ymgysylltu â gwleidyddion a swyddogion yn sefydliadau'r UE a hyrwyddo agenda polisi Llywodraeth Cymru yn yr UE.

1. A wnewch chi egluro sut y mae ymgysylltu â llywodraethiant cytundebau rhwng y DU a'r UE yn cael ei gydlynu o fewn Llywodraeth Cymru?
2. A wnewch chi egluro pa Weinidog sy'n arwain ar gydgysylltu'r gwaith hwn ar draws adrannau Llywodraeth Cymru?

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Llywodraethiant y Cytundeb: Y Cyngor Partneriaeth**

Nodwn nad yw'r Cyngor Partneriaeth wedi cynnal ei ail gyfarfod, hyd yn hyn.

3. Yn sgil y pryderon a godwyd gennych chi a Gweinidog yr Economi y llynedd ynghylch y statws sylwedydd a roddwyd i chi yng nghyfarfodydd y Cyngor, a wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y statws a roddir i chi ar gyfer yr ail gyfarfod, pan gaiff ei gynnal?

Nodwn y gall y Cyngor Partneriaeth gymryd **penderfyniadau yn ysgrifenedig** rhwng cyfarfodydd ond nid yw'n glir i ni pa rôl – os o gwbl – sydd gan y llywodraethau datganoledig wrth wneud y penderfyniadau hyn.

4. A wnewch chi amlinellu'r rôl sydd gennych o ran gwneud penderfyniadau yn y Cyngor Partneriaeth, gan gynnwys rhwng cyfarfodydd?

**Grwpiau Cynghori Domestig**

Yn eich **llythyr dyddiedig 10 Mawrth**, dywedoch wrthym nad oeddech yn gwybod pa sefydliadau Cymreig a gyflwynodd Ddatganiadau o Ddiddordeb ar gyfer aelodaeth o Grŵp Cynghori Domestig Llywodraeth y DU, gan nad oedd nifer o'r cyflwyniadau yn rhoi caniatâd i'w gwybodaeth gael ei rhannu y tu allan i Lywodraeth y DU. Ar sail ar y wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael i ni, rydym yn bryderus ynghylch i ba raddau y caiff Cymru ei chynrychioli yng Ngrŵp Cynghori Domestig Llywodraeth y DU.

5. A oes gennych chi unrhyw wybodaeth neu bryderon i'w rhannu am gynrychiolaeth Cymru ar Grŵp Cynghori Domestig Llywodraeth y DU?
6. A fydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gallu mynd i gyfarfodydd Grŵp Cynghori Domestig Llywodraeth y DU ac os nad, sut fydd hi'n ymgysylltu ag unrhyw randdeiliaid o Gymru a benodir i'r Grŵp Cynghori?
7. A fydd y llywodraethau datganoledig yn gallu awgrymu eitemau i'w trafod yng nghyfarfodydd y Grŵp Cynghori Domestig?

**Cyfarfodydd o dan y Cytundeb**

Mae Gweinidogion Cymru neu eu swyddogion wedi mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cytundeb, ni waeth a oedd y pwnc mewn maes datganoledig neu faes a gadwyd yn ôl.

Nodwn – o gofnodion cyfarfodydd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd – nad oedd unrhyw gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn bresennol mewn rhai cyfarfodydd sy'n ymwneud â'i chyfrifoldebau, er enghraifft **caffael**. Yn benodol, tra bod swyddogion o Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Ynys Manaw yn bresennol mewn cyfarfodydd ar **drafnidiaeth ffyrdd** a **TAW, adennill treth a thollau,** nid oedd swyddogion o Lywodraeth Cymru

yno hefyd. Rydym o’r farn y dylech chi sicrhau presenoldeb Llywodraeth Cymru ym mhob cyfarfod sy’n effeithio ar Gymru, boed ar lefel weinidogol neu swyddogol.

8. A wnewch egluro a yw Llywodraeth Cymru yn cael gwahoddiadau i bob cyfarfod, neu ambell un yn unig?
9. A wnewch chi egluro’r meini prawf y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a yw swyddogion yn mynd i gyfarfodydd ai peidio?
10. Pa ymgynghoriad sy’n cael ei gynnal o fewn Llywodraeth Cymru o ran a ddylai unrhyw un fod yn bresennol ai peidio? Sut mae unrhyw wybodaeth a gesglir o'r cyfarfodydd yn cael ei chasglu a'i rhannu o fewn Llywodraeth Cymru a – lle bo'n briodol – gyda rhanddeiliaid posibl?
11. A wnewch chi egluro prosesau Llywodraeth Cymru o ddod i benderfyniad o ran bod yn bresennol mewn cyfarfodydd o dan y Cytundeb Masnach a Chydweithredu?

Yn eich llythyr dyddiedig 10 Mawrth, dywedoch eich bod yn hapus i archwilio’r modd y gallwch ddarparu mwy o wybodaeth am y graddau y mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â strwythurau’r Cytundeb “mewn ffordd gymharus a phragmatig”. Rwy’n ddiolchgar i chi am awgrymu bod eich swyddogion yn cyfarfod â Chlerc ein Pwyllgor i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau y maen nhw’n eu cael gyda’u cymheiriaid mewn gweinyddiaethau eraill yn y DU ar ffyrdd o wella tryloywder; bydd ein tîm clercio yn cysylltu â'ch swyddogion. Bydd y wybodaeth hon yn arbennig o ddefnyddiol wrth gefnogi gwaith Aelodau o’r Senedd sy’n mynd i Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a’r UE.

**Cydymffurfio**

Ym mis Ionawr, **codwyd pryderon gennym** gyda’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, ar ei hasesiad bod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Rhif 2) 20211 wedi “"codi cwestiynau” mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Y rheswm dros hynny oedd bod Llywodraeth y DU wedi gwneud ‘penderfyniad munud olaf’ i barhau â’r eithriad ar gyfer rhag-hysbysu nwyddau o ynys Iwerddon. Eglurodd y Gweinidog **yn ei hymateb** nad oedd penderfyniad Llywodraeth y DU yn rhan o drafodaethau rhynglywodraethol ar y rheoliadau, ac iddo gael ei ychwanegu yn ddiweddarach. Serch hynny, eglurodd ei bod yn fodlon bod y rheoliadau yn rhai “dros dro” eu natur ac yn “angenrheidiol ac yn gymesur”.

12. Yng sgil y pryderon blaenorol a godwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau Llywodraeth y DU yn cydymffurfio â’r Cytundeb, a wnewch chi gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn mynd ati i fonitro cydymffurfiaeth â’r Cytundeb?

**Effaith y Cytundeb Ymadael ar y Cytundeb**

Eglurodd Gweinidog yr Economi yn ei **lythyr dyddiedig 27 Mehefin** ar Fesur Protocol Gogledd Iwerddon fod ganddo bryderon mawr bod gan y Bil y potensial i dorri rhwymedigaethau rhyngwladol. At hynny, nododd bod – yn ei eiriau ef – absenoldeb llwyr o ymgysylltu ystyrlon gan Lywodraeth y DU cyn ei gyflwyno. Er na ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru y tro hwn, hoffem gael dealltwriaeth o'r modd yr ymgynghorir â hi fel arall ar achosion posibl o dorri'r Cytundeb Ymadael.

13. A yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod cyflwyno Bil Protocol Gogledd Iwerddon yn gyfystyr â thorri'r Cytundeb Ymadael?
14. Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o'r modd y gallai achos posibl o dorri'r Cytundeb Ymadael effeithio ar weithrediad y Cytundeb yng Nghymru?
15. Sut – os o gwbl – mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar achosion posibl o dorri'r Cytundeb Ymadael?
16. A oes gan lywodraethau Cymru a'r DU brosesau cytûn ar waith ar gyfer achosion posibl o dorri amodau, neu ar gyfer hysbysu am unrhyw gamau ymatebol a gymerwyd gan yr UE?
17. A pes mecanweithiau rhynglywodraethol presennol yn cael eu defnyddio at y diben hwn, neu a yw'n fwriad eu defnyddio at y diben hwn ac, os felly, pa rai?

**Cysylltiadau Rhynglywodraethol.**

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad o dan y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i ddarparu gwybodaeth yn rhagweithiol am gyfarfodydd rhynglywodraethol, gan gynnwys cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Ar 20 Ebrill, **awgrymodd** y Cwnsler Cyffredinol y dylai anelu at gyfarfod yn rheolaidd, gan gynnwys cyn cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth a Chyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael.

Mae'r Pwyllgor yn nodi â phryder amlder y cyfarfodydd rhynglywodraethol sy'n cael eu trefnu ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â'r DU a'r UE. Rydym yn nodi'r enghraifft ddiweddaraf o'r fath – mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE – a ddisgrifiwyd mewn gohebiaeth gan Weinidog yr Economi ar 14 Gorffennaf.

18. A wnewch chi amlinellu pa mor aml y byddai'n well gennych chi weld amseru cyfarfodydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer cysylltiadau rhwng y DU a'r UE, ac a yw hyn wedi'i gyfleu i Lywodraeth y DU?
19. Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal rhyngoch chi a Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r mater o alw cyfarfodydd gyda digon o rybudd?

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

—

**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

3 Hydref 2022

Annwyl Rebecca,

Amgaeaf gopi o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y *Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU.*

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb ymhen 30 diwrnod gwaith, erbyn 14 Tachwedd 2022, neu nid yn hwyrach na 5 diwrnod gwaith cyn y disgwylir i'r ddadl ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei chynnal, pa un bynnag un sydd gyntaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Y Gweinidog Newid Hinsawdd; Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Banc Seilwaith y DU

Hydref 2022

## Casgliad cyffredinol

Mae gan y Pwyllgor bryderon difrifol am y Bil, fel y'i drafftiwyd. Nid ydym mewn sefyllfa i ddod i farn ar gydsyniad deddfwriaethol hyd nes y bydd yn gwybod beth yw canlyniad trafodaethau rhynglywodraethol parhaus ar welliannau i sicrhau bod y Bil yn adlewyrchu cymhwysedd datganoledig yn llawn. Byddwn yn adolygu ein safbwynt yng ngoleuni unrhyw welliannau i'r Bil, y disgwyliwn iddynt gael eu cynnwys mewn memoranda yn y dyfodol.

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 25 Mai 2022, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ('y Gweinidog') y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Seilwaith y DU ('y Memorandwm') gerbron y Senedd.

**2.** Ar 7 Mehefin 2022, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm hwn at y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor') a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan nodi mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 29 Medi 2022. Wrth gyfeirio'r Memorandwm, fe wnaeth y Pwyllgor Busnes annog y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor hwn i drafod rhyngddynt pwy fyddai'n arwain y gwaith craffu.

**3.** Ar 8 Gorffennaf 2022, gosododd y Gweinidog y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer Bil Banc Seilwaith y DU ('y Memorandwm Atodol') gerbron y Senedd.

**4.** Ar 12 Gorffennaf 2022, fe wnaeth y Pwyllgor Busnes gyfeirio'r Memorandwm Atodol at yr un pwyllgorau y cyfeirir atynt ym mharagraff 2 i'w ystyried, gyda'r dyddiad cau 19 Tachwedd 2022 ar gyfer cyflwyno adroddiad.

### Ein dull ni

**5.** Yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am eglurhad ynghylch darpariaethau'r Bil i'r graddau y maent yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor. Ysgrifennodd y Pwyllgor hefyd at John Flint, Prif Swyddog Gweithredol Banc Seilwaith y DU. Mae'r cyfnewid hwn mewn gohebiaeth ar gael ar wefan Senedd Cymru.

**6.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor ar y Bil a'r Memoranda i'r graddau y maent yn berthnasol i'w gylch gwaith. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar gael ar wefan Senedd Cymru.

## 2. Cefndir y polisi

**7.** Yn 2018, argymhellodd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol y DU y dylid sefydlu banc seilwaith cenedlaethol y DU i gymryd lle swyddogaethau Banc Buddsoddi Ewrop ar ôl Brexit. Fe wnaeth ymgynghoriad Llywodraeth y DU (Tachwedd 2019) hefyd ganfod bod cefnogaeth i gorff o'r fath.

**8.** Roedd Strategaeth Seilwaith Cenedlaethol Llywodraeth y DU (Tachwedd 2020) yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu banc seilwaith cenedlaethol mawr newydd a fyddai'n gweithredu gyda chryn dipyn o annibyniaeth weithredol, ond o fewn mandad a bennir gan y llywodraeth.

**9.** Cyhoeddwyd y bwriad i greu Banc Seilwaith y DU ('y Banc') gan y Canghellor yn yr Adolygiad o Wariant 2020. Dywedodd yr Adolygiad o Wariant 2020:

> *"Increased infrastructure investment is supported by a new National Infrastructure Strategy, which sets out the government's plans to transform the UK's economic infrastructure. It is based around three central objectives: economic recovery, levelling up and unleashing the potential of the Union, and meeting the UK's net zero emissions target by 2050. These objectives will be supported by the creation of a new infrastructure bank to catalyse private*

*investment in projects across the UK; as well as through a comprehensive set of reforms to the way infrastructure is delivered."*

**10.** Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei dogfen Policy Design ar gyfer y Banc, sy'n amlinellu perthynas y Banc â'r gweinyddiaethau datganoledig, ymhlith pethau eraill. Mae'n nodi'r canlynol:

> *"The Bank will operate across the whole of the UK, working closely with public and private sectors to support infrastructure investment in every nation. Building strategic relationships with the devolved administrations, local authorities across the UK and relevant institutions such as the Scottish National Investment Bank and Development Bank of Wales, will be a priority".*

**11.** Mae'r ddogfen *Policy Design* hefyd yn nodi y byddai Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig yng ngham nesaf y gwaith o gynllunio'r Banc.

**12.** Lansiwyd y Banc ar sail anstatudol ar 17 Mehefin 2021. I gyd-fynd â'r lansiad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU UK Infrastructure Bank Framework Document, sy'n nodi'r atebolrwydd a'r berthynas rhwng y Banc, y Cyfranddaliwr (Trysorlys EM) a Chynrychiolydd y Cyfranddalwyr (Buddsoddiadau Llywodraeth y DU).

**13.** Ym mis Mawrth 2022, cyn cynllun strategol cyntaf y Banc, ysgrifennodd y Canghellor at y Banc i amlinellu blaenoriaethau polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y sefydliad a rhoi mwy o eglurder ynghylch ei fandad. Mae'r llythyr yn nodi disgwyliadau'r Canghellor ar gyfer y Banc, sef:

- gweithio'n adeiladol gyda'r llywodraeth a sefydliadau ym mhob un o wledydd y DU i wneud y mwyaf o effaith ei fuddsoddiadau;
- datblygu dealltwriaeth gynnil o nodweddion y farchnad ym mhob un o'r pedair gwlad fel y gall dargedu ei fuddsoddiadau'n briodol;
- rhoi blaenoriaeth i feithrin perthynas gref â Banc Buddsoddi Cenedlaethol yr Alban a Banc Datblygu Cymru a gweithio'n agos gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon mewn ffyrdd sy'n gydnaws â threfniadau datganoli'r DU;
- canolbwyntio ei fuddsoddiad a'i ymgysylltiad ar feithrin ei bresenoldeb yn y farchnad ym mhob un o'r pedair gwlad; a
- monitro'r effaith y mae'r Banc yn ei chael ym mhob un o'r gwledydd.

**14.** Cyhoeddodd y Banc ei Gynllun Strategol ar gyfer 2022 ym mis Mehefin 2021.

# 3. Bil Banc Seilwaith y DU

## Diben y Bil

**15.** Cyflwynwyd Bil Banc Seilwaith y DU ('y Bil') yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022.

**16.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn nodi:

> *"The purpose of this Bill is to place the UK Infrastructure Bank ('the Bank') on a statutory footing. The Bank is an operationally independent institution wholly owned by government.* ***The Bank's purposes are to help tackle climate change*** *and to support regional and local economic growth****, through investment in infrastructure*** *(ychwanegwyd pwyslais)."*

## Hynt drwy Senedd y DU

**17.** Cwblhaodd y Bil y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Gorffennaf 2022, lle cytunwyd ar gyfres o welliannau. Ceir rhagor o fanylion am y gwelliannau sy'n berthnasol i'n trafodaeth yn Adran 5 o'r adroddiad hwn.

**18.** Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Gorffennaf 2022. Nid yw dyddiad yr ail ddarlleniad wedi'i gyhoeddi eto.

# 4. Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

## Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**19.** Yn ôl y Memorandwm, mae angen cydsyniad y Senedd ar y Bil cyfan (cymalau 1 i 11) gan fod gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu yn yr un termau neu dermau tebyg mewn perthynas â Chymru. Mae'r Memorandwm yn datgan:

> *"Mae prif bwnc y Bil, sef darparu cymorth ariannol a chyngor i brosiectau sy'n ymwneud â seilwaith (gan gynnwys dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth, rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth a newid yn yr hinsawdd), yn faes datganoledig o'r gyfraith."*

**20.** Mae paragraffau 24 i 42 o'r Memorandwm yn amlinellu'r darpariaethau yn y Bil y mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**21.** Mae paragraffau 43 i 46 o’r Memorandwm yn nodi barn Llywodraeth y DU ynghylch cydsyniad.

**22.** Yn ôl Llywodraeth y DU, dim ond ar gyfer cymalau 2, 3, 4, 5, 8 ac 11 o’r Bil y mae angen cydsyniad y Senedd.

## Gwelliannau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**23.** Mae paragraffau 14 i 29 o’r Memorandwm Atodol yn rhoi manylion am y gwelliannau i’r Bil y cytunwyd arnynt yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ’r Arglwyddi y mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**24.** Yn ôl y Memorandwm Atodol, “Mae barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad yn parhau i fod yr un fath â’r farn a amlinellwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf a gyflwynwyd ar 25 Mai 2022”.

## Safbwynt polisi presennol Llywodraeth Cymru

**25.** Mae’r Memorandwm yn nodi bod y “Bil fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn bygwth cymwyseddau datganoledig. H.y., mae pwerau'n cael eu cadw yn ôl ar gyfer Gweinidogion y DU a Thrysorlys Ei Mawrhydi mewn modd sy'n tanseilio'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau y cafodd deddfwyr Cymru eu hethol i'w diogelu”.

**26.** Aiff ymlaen i ddweud:

> *“Nid yw'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn darparu unrhyw rôl i'r Senedd, Gweinidogion Cymru, na swyddogion Llywodraeth Cymru o ran llywodraethiant y Banc, tra'n cadw gweithgareddau penodol ar gyfer y Senedd, y Canghellor a Thrysorlys Ei Mawrhydi, megis y pŵer i Drysorlys Ei Mawrhydi ddiwygio cyfeiriad strategol y Banc gan gynnwys mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli heb ymgynghori â'r Senedd na Llywodraeth Cymru.”*

**27.** Mae’r Memorandwm yn esbonio bod “swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gofyn am welliannau sy'n ymwneud â chylch gwaith y banc mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i sicrhau bod datganoli'n cael ei barchu, ond hyd yn hyn nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw newidiadau o'r fath eto”. Mae’r Gweinidog wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i eirioli bod y Senedd, Gweinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i gyd yn arfer pwerau

cyfatebol i bwerau'r sefydliadau cyfatebol yn y DU. Galwodd ar Lywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil i alluogi'r Senedd a Gweinidogion Cymru i gymryd eu rôl briodol o fewn strwythurau llywodraethu i sicrhau atebolrwydd democrataidd priodol.

**28.** I gloi, mae'r Memorandwm yn pwysleisio bod nifer o'r cymalau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer "o bryder cyfansoddiadol i Lywodraeth Cymru. Felly, er gwaethaf rhinweddau rhai o'r cymalau, mae safbwynt terfynol Gweinidogion Cymru ynghylch a ddylid argymell cydsyniad yn ddarostyngedig i ganlyniad trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyflwyno gwelliannau i'r Bil".

**29.** Mae'r Memorandwm Atodol yn esbonio nad yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Bil eto i fynd i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru.

# 5. Cymalau o ddiddordeb i'r Pwyllgor

**30.** Mae'r paragraffau a ganlyn yn rhoi esboniad o'r cymalau sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor, o ystyried ei gylch gwaith, a'r gwelliannau a wnaed i'r cymalau hynny yn ystod y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin.

## Cymal 2 – amcanion a gweithgareddau

**31.** Mae cymal 2(3) yn darparu mai amcan y Banc yw: helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd, gan gynnwys drwy gefnogi ymdrechion i gyrraedd y targed ar gyfer 2050 a nodir yn adran 1 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, a chefnogi twf economaidd rhanbarthol a lleol.

**32.** Mae cymal 2(4) yn darparu mai gweithgareddau'r Banc yw: darparu cymorth ariannol i brosiectau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â seilwaith; darparu benthyciadau i awdurdodau cyhoeddus perthnasol ar gyfer prosiectau o'r fath; gweithredu fel canolfan arbenigedd a darparu gwasanaethau cynghori a chymorth eraill mewn perthynas â phrosiectau o'r fath; ac unrhyw weithgareddau eraill sy'n atodol neu'n ffafriol i'r gweithgareddau uchod, neu sy'n gysylltiedig fel arall â hwy.

**33.** Roedd cymal 2(5) o'r Bil, fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi, yn darparu bod ystyr 'seilwaith' yn cynnwys technolegau a chyfleusterau sy'n ymwneud â: dŵr, trydan, nwy, telathrebu, carthffosiaeth neu wasanaethau eraill (gan gynnwys darparu gwres), rheilffyrdd (gan gynnwys cerbydau rheilffyrdd), ffyrdd neu fathau eraill o drafnidiaeth; a newid hinsawdd (gan gynnwys tynnu nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer).

**34.** Fel y nodir yn y Memorandwm Atodol, gwnaed gwelliannau yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi i ehangu ystyr 'seilwaith':

- i gynnwys 'strwythurau sy'n sail i'r economi gylchol, ac atebion ar sail natur'; ac
- i'w gwneud yn glir bod effeithlonrwydd ynni, mewn perthynas â thrydan, nwy a darparu gwres, o fewn y diffiniad o seilwaith.

**35.** Mae cymal 2(7) yn darparu y caiff y Trysorlys, drwy reoliadau, ddiwygio amcanion a gweithgareddau'r Banc. Byddai'r rheoliadau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth gan Senedd y DU.

### Cymal 3 – blaenoriaethau a chynlluniau strategol

**36.** Mae cymal 3 yn gosod gofyniad ar y Trysorlys i baratoi datganiad o flaenoriaethau strategol ar gyfer y Banc o fewn chwe mis ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym. Gall y Trysorlys ddiwygio neu amnewid y datganiad. Rhaid gosod copi o'r datganiad (neu'r datganiad diwygiedig) gerbron Senedd y DU.

**37.** Rhaid i'r Banc gyhoeddi cynlluniau strategol sy'n adlewyrchu datganiad y Trysorlys a gweithredu'n unol â hwy, a diweddaru'r cynlluniau hynny pryd bynnag y bydd y Trysorlys yn diwygio neu'n amnewid ei ddatganiad.

# 6. Trafodaeth y Pwyllgor

### Cysondeb â blaenoriaethau strategol Cymru

**38.** Wrth drafod y memoranda, fe wnaeth y Pwyllgor drafod a yw blaenoriaethau ac amcanion strategol y Banc yn cyd-fynd â rhai Llywodraeth Cymru a sut y maent yn gwneud hynny.

**39.** Eglurodd John Flint, Prif Swyddog Gweithredol Banc Seilwaith y DU fod y Banc wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol Cymru a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys Banc Datblygu Cymru, sydd wedi helpu i alinio ei gynllun strategol â blaenoriaethau ac ysgogwyr polisi Cymru. Ychwanegodd:

> *"When making investment decisions we consider the extent to which each investment opportunity delivers on our Strategic Plan and towards wider UK policy on climate change and economic infrastructure, including that of Wales".*

**40.** Dywedodd John Flint y bydd cynllun strategol y Banc yn cael ei adnewyddu'n rheolaidd ac felly'n cadw'n gyfoes â pholisi Cymru. Yn ogystal, dywedodd y bydd y Banc yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chwaraewyr eraill y farchnad ar gyflawni'r cynllun.

**41.** Er i'r Gweinidog ddweud bod gan y Banc "y potensial i gefnogi blaenoriaethau seilwaith Llywodraeth Cymru", pwysleisiodd yr angen am gyfatebiaeth rhwng gweinyddiaethau o ran llywodraethu'r Banc. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru (a'r llywodraethau datganoledig eraill) i ddylanwadu ar y broses o bennu blaenoriaethau a chynlluniau strategol y Banc.

## Amcanion statudol y Banc

### Amcan natur?

**42.** Amcanion statudol y Banc yw helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chefnogi twf economaidd. Ochr yn ochr â Chyllideb Gwanwyn 2021, ymrwymodd Llywodraeth y DU i adolygu'r achos dros ehangu amcanion amgylcheddol Banc Seilwaith y DU i gynnwys meysydd fel gwella cyfalaf naturiol y DU. Wrth adrodd ar ei chanfyddiadau, daeth Llywodraeth y DU i'r casgliad:

> *"…we believe that support for nature-based solutions can be delivered through the Bank's existing policy framework, without the addition of a specific third objective on nature. This will enable the Bank to focus on building its capability to meet its two stretching objectives on tackling climate change and supporting regional and local economic growth".*

**43.** Fodd bynnag, aeth ymlaen i annog y Banc i ystyried y rôl y gallai ei chwarae mewn datrysiadau seiliedig ar natur a sut y gallai hynny ddatblygu dros amser.

**44.** Gofynnodd y Pwyllgor am farn y Gweinidog ar amcanion y Banc, gan gynnwys a ddylid eu hymestyn, er enghraifft i gynnwys mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Yn ôl y Gweinidog, mae'r amcanion "yn ddigon eang i gwmpasu ystod gynhwysfawr o ymyriadau mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys bioamrywiaeth, atebion sy'n seiliedig ar natur neu'r economi gylchol". Fodd bynnag, ychwanegodd, "ni fyddwn yn amharod i weld yr amcanion hyn ar wyneb y Bil".

**45.** Pwysleisiodd y Gweinidog yr angen am gyfatebiaeth rhwng gweinyddiaethau o ran llywodraethu'r Banc, er mwyn eu galluogi i gael dweud eu dweud wrth fireinio amcanion y Banc lle bo angen.

## Cydbwyso amcanion

**46.** Mae'r ddogfen fframwaith yn cydnabod y potensial ar gyfer tensiwn rhwng amcanion y Banc i helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a chefnogi twf economaidd, yn enwedig yn y tymor byr. Mae'n nodi, lle mai diben pennaf buddsoddiad yw cefnogi twf economaidd, bydd y Banc yn sicrhau nad yw'n gwneud niwed sylweddol yn erbyn ei amcan hinsawdd. Wrth wneud sylw ar hyn, dywedodd y Gweinidog, "mae'n amlwg i mi fod yn rhaid i ymarfer y Banc o ddiwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r amod hwn fod yn ganolog i benderfynu a yw prosiect yn cael ei gefnogi neu fel arall".

**47.** Gofynnodd y Pwyllgor i John Flint esbonio sut mae'r Banc yn penderfynu a fyddai buddsoddiad yn gwneud niwed sylweddol. Dywedodd wrthym:

> *"All investments financed by the Bank undergo environmental, social, resilience & governance (ESRG) screening. Our identification of ESRG concerns and "significant harm" is risk-based and seeks to ensure that adequate mitigations are in place. This includes, amongst other things, assessing how projects manage their direct and indirect environmental and social impact, the climate resilience of their projects, risks and the robustness of their ESRG governance structures. UKIB requires ongoing regular reporting on key metrics and annual and environmental reports from our clients to ensure ongoing alignment with our mandate."*

**48.** Ychwangodd John Flint: "the Bank is currently further enhancing our ESRG, including improving our approach to "do no significant harm", so ensuring it is fit for purpose in this fast-progressing area". Dywedodd y bydd manylion am ddull gweithredu y Banc mewn perthynas â sgrinio amgylcheddol, cymdeithasol, cydnerthedd a llywodraethu yn cael eu nodi yn ei adroddiadau blynyddol wrth iddynt esblygu.

**49.** Er ei bod yn bosibl na fyddai penderfyniad buddsoddi penodol yn cyrraedd y trothwy o 'niwed sylweddol', roedd y Pwyllgor yn pryderu y gellid ystyried bod cyfres o benderfyniadau, gyda'i gilydd, yn achosi niwed sylweddol. Felly, gofynnodd y Pwyllgor i John Flint egluro a fydd y Banc yn ystyried effaith gronnus ei benderfyniadau buddsoddi a sut y bydd yn gwneud hynny. Dywedodd John Flint fod y Banc yn cydnabod pwysigrwydd monitro effaith gronnus. Ychwanegodd:

> *"We consider every new investment in relation to assets already financed, including impact and additionality. In accordance with our net zero mandate, the cumulative contribution of the Bank to climate mitigation will be measured over time. The location specific environmental characteristics of*

*investment projects are considered in our assessment of cumulative impact, including in relation to our "do no significant harm" principle."*

## Ystyr seilwaith

**50.** Gofynnodd y Pwyllgor am farn y Gweinidog ynghylch ystyr 'seilwaith'. Dywedodd wrthym fod yr ystyr yn "ymddangos… yn weddol eang". Unwaith eto, pwysleisiodd yr angen am gyfatebiaeth rhwng gweinyddiaethau o ran llywodraethu'r Banc, a hynny er mwyn galluogi Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i "ailedrych ar y cyd a chyda pharch llawn at gymwyseddau datblygedig yr amcanion a'r diffiniadau pe baent yn cael eu hystyried, er enghraifft, fel rhai sy'n cyfyngu'n ormodol".

**51.** Mae'r ddogfen fframwaith yn nodi mathau o brosiectau na ddylai'r Banc eu cefnogi, gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud ag echdynnu, cynhyrchu, cludo a mireinio olew crai, nwy naturiol neu lo thermol gydag eithriadau cyfyngedig iawn. Mae'n darparu rhestr o eithriadau, ond nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr. Gofynnodd y Pwyllgor i John Flint roi manylion am y meini prawf y mae'r Banc yn eu defnyddio wrth benderfynu a ddylai prosiect fod yn destun eithriad. Eglurodd:

> *"Exemptions will be considered in the context of the energy transition where the benefit of moving a technology, business or sector to a lower carbon emissions intensity is crucial to net zero and we can evidence the relative avoided emissions from the investment. Fossil fuel generation of any kind will only be considered by exception with adequate and proportionate carbon capture storage where emissions will be reduced over the lifetime of the asset. Judgements on exemptions will always be made in collaborative and transparent fashion."*

**52.** Esboniodd John Flint hefyd fod angen i'r Banc geisio cymeradwyaeth ysgrifenedig gan gyfranddalwyr cyn ymrwymo i unrhyw drafodiad sydd yn newydd, yn ddadleuol neu'n cael ôl-effeithiau, neu y gellid barnu felly. Dywedodd: "Where possible and practical to do so, we will look to consult with the Welsh Government on any potentially contentious issues arising from our activities in Wales".

## Ein barn ni

Rôl i Lywodraeth Cymru a'r Senedd

Os yw Cymru am gyrraedd ei tharged sero net ar gyfer 2050, bydd angen buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat fel ei gilydd. Rydym yn

credu y gallai'r Banc chwarae rhan bwysig wrth gynyddu a chyflymu buddsoddiad i gefnogi'r broses o drosglwyddo Cymru i sero net. Er ein bod o blaid creu'r Banc mewn egwyddor, mae gennym bryderon difrifol am y Bil, fel y'i drafftiwyd.

Bydd y Banc, a fydd yn gweithredu ar sail y DU gyfan, yn arfer swyddogaethau yng Nghymru mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Nid yw'r Bil yn ystyried hyn. Nid oes rôl i Lywodraeth Cymru na'r Senedd yn nhrefniadau llywodraethu'r Banc: caiff blaenoriaethau strategol y Banc eu pennu gan Lywodraeth y DU (cymal 3); Llywodraeth y DU a Senedd y DU sydd â'r pŵer i ddiwygio gweithgareddau'r Banc ac ystyr 'seilwaith' (cymal 2); Llywodraeth y DU sydd â'r pŵer i roi cyfarwyddyd i'r Banc ynghylch sut i gyflawni ei amcanion (cymal 4); a mater i Senedd y DU fydd goruchwylio effeithiolrwydd y Banc (cymal 9). Mae hyn yn annerbyniol.

Rydym yn cefnogi galwadau Llywodraeth Cymru ar i Lywodraeth y DU ddiwygio'r Bil i roi rolau i Lywodraeth Cymru a'r Senedd yn nhrefniadau llywodraethu'r Banc sy'n cyfateb i rai eu sefydliadau cyfatebol yn y DU. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn barod i rannu manylion am y gwelliannau y mae'n eu ceisio â phwyllgorau'r Senedd.

Buddsoddi mewn natur

O ystyried yr argyfwng natur cynyddol a'r angen i gyflymu camau gweithredu ar frys i fynd i'r afael â hyn, rydym yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi dweud na fydd yn cynnwys amcan natur statudol yn dilyn ei hadolygiad o amcanion amgylcheddol y Banc. Rydym yn credu bod hyn yn colli cyfle.

Er gwaethaf yr uchod, cawsom ein calonogi o glywed gan y Gweinidog fod amcanion y Banc yn ddigon eang i alluogi buddsoddiad mewn datrysiadau seiliedig ar natur a bioamrywiaeth. Rydym yn croesawu'r gwelliant y cytunwyd arno yn Nhŷ'r Arglwyddi i ehangu ystyr 'seilwaith', sy'n rhoi sicrwydd cyfreithiol bod atebion sy'n seiliedig ar natur o fewn cwmpas y Banc. Rydym yn gobeithio y caiff y gwelliant hwn ei gadw wrth i'r Bil fynd drwy Dŷ'r Cyffredin.